## PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT

## 28 MAI 2024

Cofnodion cyfarfod hybrid Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 28 Mai 2024.

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>**Y Cynghorwyr:** | Y Cynghorydd Teresa Carberry (Cadeirydd)<br>Gladys Healey, Dave Mackie, Gina Maddison, Ryan McKeown, Debbie Owen, Andrew Parkhurst, Carolyn Preece, Jason Shallcross ac Arnold Woolley |
| **AELODAU CYFETHOLEDIG:** | Lisa Allen a Lynne Bartlett |
| **DIRPRWYON:** | Y Cynghorwyr: Helen Brown (ar ran Bill Crease) a Mel Buckley (ar ran Paul Cunningham) |
| **HEFYD YN BRESENNOL (FEL ARSYLWYR):** | Y Cynghorwyr: Glyn Banks, Marion Bateman, Chris Bithell, Gillian Brockley, David Coggins Cogan, Ron Davies, Chrissy Gee, David Healey, Dave Hughes, Dennis Hutchinson, Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Christine Jones, Allan Marshall, Hilary McGuill, Mike Peers, David Richardson, Dan Rose, Sam Swash, Linda Thew a Linda Thomas. |
| **CYFRANWYR:** | Y Cynghorydd Mared Eastwood (Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden); Prif Weithredwr, Swyddog Gweithredol Strategol a Rheolwr Cyllid Strategol a Rheolwr Corfforaethol Pobl a Datblygu Sefydliadol. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Hwylusydd Trosolwg a Chraffu, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

### 12. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

### DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd fod y Cyngor o blaid datgelu gymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl am y penderfyniad mae'n ei wneud. Am resymau a amlinellir ar dudalen 2 yr adroddiad, gofynnodd y Cadeirydd am gynigydd ac eilydd o blith Aelodau'r Pwyllgor i wahardd y wasg a'r cyhoedd a symud i Ran 2.

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod gan yr ystyrir bod yr eitem ganlynol wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

## 13. DEWISIADAU AR GYFER Y DYFODOL: GWASANAETHAU HAMDDEN, LLYFRGELLOEDD AC AMGUEDDFEYDD

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r Dewisiadau ar gyfer y Dyfodol ar gyfer Gwasanaethau Hamdden, Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd er mwyn i'r Pwyllgor eu hystyried. Eglurwyd y byddai'r argymhellion o'r cyfarfod hwn yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn ddiweddarach yn yr wythnos.

Rhoddodd y Swyddog Gweithredol Strategol a'r Rheolwr Cyllid Strategol gyflwyniad a oedd yn cynnwys trosolwg o'r trefniadau gweithredu presennol ac arfarniad dewisiadau ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol i'r Pwyllgor eu hystyried a rhannu barn am ddewisiadau a ffefrir â'r Cabinet. Rhoddodd y Rheolwr Corfforaethol (Pobl a Datblygu Sefydliadol) wybodaeth am Drosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth (TUPE) ac eglurodd y goblygiadau o ran Pensiynau.

Gofynnodd Aelodau nifer o gwestiynau a chafwyd atebion gan y Swyddogion a oedd yn bresennol. Roedd y cwestiynau'n cwmpasu'r meysydd canlynol:-

- Yr argymhellion a wnaed gan FMG Consulting Ltd;
- Aelodau'n cael gweld gwybodaeth ariannol ychwanegol, yn enwedig o ran goblygiadau ariannol;
- Parhad gwasanaeth ac amhariad posibl i ddefnyddwyr gwasanaeth;
- Aelodau'n cael gweld cyngor cyfreithiol;
- Deddfwriaeth Cymhorthdal;

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn dilyn y drafodaeth a'r sylwadau a wnaed gan Aelodau, awgrymodd fod angen rhagor o wybodaeth ac y dylid diwygio'r argymhellion i adlewyrchu hyn.

Gofynnwyd am bleidlais wedi'i chofnodi am yr argymhellion arfaethedig canlynol:-

a) Bod y wybodaeth gefndir a'r sefyllfa bresennol o ran gwasanaethau hamdden, llyfrgelloedd, chwarae ac amgueddfeydd wedi bod yn anodd i'w chael ac nad oedd yn ddigon manwl;

b) Bod y Pwyllgor yn gofyn i'r Cabinet geisio parhau â chontract gydag Aura; a

c) Bod adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wrth i'r gwaith ddatblygu ac fel bo'r gofyn.

<u>O blaid yr argymhellion:-</u>
Y Cynghorwyr: Helen Brown, Gladys Healey, Dave Mackie, Debbie Owen, Andrew Parkhurst, Carolyn Preece, Jason Shallcross ac Arnold Woolley

<u>Yn erbyn yr argymhellion:</u>
Ni phleidleisiodd unrhyw Aelodau yn erbyn yr argymhellion.

Ymatal:
Y Cynghorwyr: Teresa Carberry, Mel Buckley, Gina Maddison a Ryan McKeown

**PENDERFYNWYD:**

a) Bod y wybodaeth gefndir a'r sefyllfa bresennol o ran gwasanaethau hamdden, llyfrgelloedd, chwarae ac amgueddfeydd wedi bod yn anodd i'w chael ac nad oedd yn ddigon manwl;

b) Bod y Pwyllgor yn gofyn i'r Cabinet geisio parhau â chontract gydag Aura; a

c) Bod adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wrth i'r gwaith ddatblygu ac fel bo'r gofyn.

14. **AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL**

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.53pm)

…………………………
Y Cadeirydd

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell weddarllediadau yma: https://flintshire.public-i.tv/core/portal/home